Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Sion Cwilt

Synod Inn
Llandysul
Ceredigion
Llandysul
SA44 6JZ

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2025**

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Bro Sion Cwilt

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Bro Sion Cwilt |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 120 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 110 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 10 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 10% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 5% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 31.3% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 3.3% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw’n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 27/01/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn naws gyfeillgar, gynhwysol a theuluol yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn adeiladu perthnasoedd gwaith cadarnhaol ag aelodau staff sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at yr awyrgylch ddysgu fuddiol a threfnus.

Mae staff yn darparu amgylchedd ddysgu liwgar a difyr lle gall pob grŵp o ddisgyblion ddysgu'n gynhyrchiol. Ar draws yr ysgol, mae staff yn datblygu medrau'r disgyblion yn bwrpasol wrth ddarparu profiadau cyffrous a diddorol iddynt trwy weithgareddau a heriau yn y dosbarthiadau ac yn yr ardaloedd tu allan. Er hyn, mae staff yn dueddol o arwain y dysgu yn ormodol, sy'n aml yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau gwrando a darllen yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Ar frig yr ysgol, pan gânt y cyfle, mae llawer yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn y ddwy iaith yn briodol. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd a gaiff y disgyblion i ysgrifennu'n estynedig, ar y cyfan.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae staff yn adnabod disgyblion sydd angen cefnogaeth yn fuan ac yn darparu rhaglenni cefnogi amserol. Mae staff yn cydweithio'n agos â rhieni er mwyn monitro cynnydd ac adnabod y camau nesaf yn y dysgu.

Mae'r pennaeth yn rhannu ei weledigaeth, sef 'Gwireddu pob breuddwyd', yn glir, ac mae cymuned yr ysgol yn cydweithio'n ddiwyd i'w gwireddu. Caiff yr ysgol ei harwain yn effeithiol gan dîm medrus sy'n adnabod y cryfderau a'r agweddau sydd angen eu gwella. Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol i holl waith yr ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r camau gwella nesaf.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Ymestyn y cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y meysydd dysgu

A2. Ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sydd wedi ei seilio ar greu ysgol hapus a chroesawgar. Mae'n rhoi ffocws ar ddatblygu diwylliant ac ethos cynhwysol, sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar wella profiadau lles a dysgu disgyblion. Rhennir y weledigaeth yn llwyddiannus gyda'r holl randdeiliaid. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohono'i hun a'r staff, ac maent yn cydweithio fel tîm clòs i ymgorffori egwyddorion arwyddair yr ysgol: 'Gwireddu pob breuddwyd'. Mae ymdeimlad cryf o deulu wedi ei wreiddio yn yr ysgol, ac mae'r berthynas waith gynhaliol a chyfeillgar sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn nodwedd gref o fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae bron bob un disgybl yn hapus i fynychu'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn teimlo bod oedolion yn eu parchu, yn eu trin yn deg ac yn gwrando arnynt pan fydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae'r amgylchedd dysgu yn lliwgar, ysgogol a difyr i ddisgyblion. O ganlyniad, mae bron bob un yn arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu, yn mwynhau eu tasgau ac yn ymroi iddynt yn frwdfrydig.

Mae staff yn cynllunio gweithgareddau diddorol yn yr ardaloedd dysgu sy'n cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu medrau cyfathrebu a chymdeithasol y disgyblion. Mae defnydd bwriadus o'r ardaloedd allanol yn cefnogi lles disgyblion ac yn datblygu agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn cydweithio'n fedrus wrth gymysgu sment yn yr ardal adeiladu.

Mae staff yn darparu cwricwlwm pwrpasol sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Maent yn cynnwys syniadau'r disgyblion yn fwriadus wrth gynllunio gweithgareddau dysgu sy'n ennyn eu diddordeb ac yn rhoi cyfleoedd iddynt ddylanwadu ar gynnwys y themâu dysgu fesul tymor. Er enghraifft, fel rhan o thema 'Ffermtastig', mae staff a'r disgyblion hynaf wedi cydweithio â ffermydd lleol i gyfoethogi eu profiadau dysgu. Mae hyn yn cyfrannu at gynyddu perchnogaeth y disgyblion tuag at y gweithgareddau a brwdfrydedd yn eu dysgu. Er hyn, yn gyffredinol, mae staff yn dueddol o orarwain y dysgu ar adegau sydd, yn ei dro, yn llesteirio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau yn gadarn. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau oedolion a chyfraniadau ei gilydd. Mae medrau llafar a darllen y rhan fwyaf yn datblygu'n effeithiol. Mae staff yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, sy'n cynnwys cyfleoedd i'r disgyblion hynaf ysgrifennu hysbyseb ar gyfer bwthyn gwyliau lleol gan ddefnyddio iaith berswâd ac idiomau amrywiol. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd a gaiff y disgyblion i ysgrifennu'n estynedig.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn, sy’n cynnwys cyfleoedd i’r disgyblion ieuengaf godio’n llwyddiannus. Mae staff yn darparu cyfleoedd amrywiol i ddatblygu medrau creadigol ac artistig disgyblion. Er enghraifft, wrth i ddisgyblion ieuengaf arbrofi gydag offerynnau cerdd yn yr ardaloedd allanol a’r disgyblion hynaf yn addurno bwthyn gwyliau.

Mae’r ysgol yn darparu cymorth pwrpasol ac o ansawdd cadarn i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae trefniadau’r ysgol yn adnabod anghenion unigol disgyblion yn gynnar ac yn sicrhau bod y gefnogaeth yn cael ei theilwra’n fedrus i'w hanghenion personol. Mae cynlluniau dysgu unigol yn amlinellu’n glir anghenion dysgu’r disgyblion, sy’n cyfrannu’n werthfawr at allu’r athrawon i gefnogi a chynllunio’n fwriadus ar eu cyfer. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau hunanwerthuso cynhwysfawr a thrwyadl ar gyfer monitro a gwella’r ddarpariaeth a chyflawniad disgyblion. Maent yn casglu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol ac yn defnyddio’r wybodaeth yn grefftus i nodi’r meysydd i’w gwella. O ganlyniad, mae blaenoriaethau gwella’r ysgol yn canolbwyntio’n gadarn ar ddatblygu medrau a chodi safonau disgyblion. Mae arweinwyr yn monitro effaith y gweithgareddau hyn ar y ddarpariaeth, ac o ganlyniad, mae staff yn datblygu eu dulliau addysgu i fod yn fwy cyson ar draws yr ysgol. Yn ddiweddar, mae staff wedi canolbwyntio ar gryfhau’r ddarpariaeth darllen yn y ddwy iaith er mwyn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau. Mae’r hyfforddiant wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau a mwynhad disgyblion at ddarllen ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn gwneud defnydd da o atalnodi wrth ddarllen ar goedd er mwyn cyfleu ystyr.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar les corfforol ac emosiynol disgyblion. Mae dulliau rhannu pryderon yn y ‘blwch becso’ a sesiynau corfforol penodol yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol at les ac yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu dulliau da i reoli eu hemosiynau. Mae’r staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr a chyfoethog i ddisgyblion fyfyrio ar faterion moesegol pwysig. Maent yn dathlu gwahaniaethau o fewn cymdeithas yn ystod gwasanaethau wythnosol a myfyrdod dyddiol yn effeithiol.

Mae’r pennaeth yn cyfathrebu’n effeithiol â rhieni ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol am newyddion a digwyddiadau’r ysgol yn amserol. Gwneir ymdrech sylweddol i gaffael barn rhieni am weithgareddau’r ysgol sy’n cyfrannu’n werthfawr at sicrhau perthynas waith gynhyrchiol sy’n rhan greiddiol o’i llwyddiant. Er enghraifft, mae staff yn gweithredu ar fewnbwn a gafodd ei gynnig gan rieni wrth i staff ddatblygu gwybodaeth berthnasol am gynnydd a phrofiadau’r disgyblion.

Mae gweithdrefnau’r ysgol i sicrhau bod disgyblion yn mynychu’n rheolaidd yn effeithiol. O ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi codi’n sylweddol ac maent uwchlaw’r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae trefniadau pontio’r ysgol gyda’r ysgolion uwchradd yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau y bydd disgyblion yn trosglwyddo’n esmwyth i’w hysgol nesaf, pan ddaw’r amser.

Mae’r corff llywodraethol yn wybodus ac yn weithgar yn ei rôl wrth fonitro a datblygu perfformiad yr ysgol ymhellach. Ar y cyd ag arweinwyr eraill, maent yn defnyddio dulliau perthnasol i werthuso a gosod blaenoriaethau gwella yn synhwyrol er mwyn cefnogi staff i ddatblygu’r ddarpariaeth. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd cyson yn eu medrau.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2025